# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Taflen ffeithiau 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


## Ystod oedran 0 hyd at 25

Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0 i 25 oed, gan sicrhau y gallant gael mynediad at addysg a/neu hyfforddiant priodol, gan gynnwys addysg orfodol ac addysg neu hyfforddiant arbenigol ôl-16 lle bo angen.

Bydd rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar newydd mewn awdurdod lleol yn helpu i wella'r broses o nodi ADY ac ymyrryd yn gynnar, a sicrhau gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

## Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc ac eraill am ADY a'r system newydd, a sicrhau eu bod ar gael i bawb sydd eu hangen.




## Y Gymraeg

Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth Gymraeg lle mae'n ofynnol ac, wrth adolygu CDUau, i ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol Gymraeg.

## Cod ADY gorfodol

Bydd y Cod ADY yn pennu gofynion gorfodol ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â:

- gwasanaethau gwybodaeth a chyngor
- gwasanaethau eiriolaeth annibynnol
- paratoi CDUau, eu cynnwys a'u ffurf, a sut y dylent gael eu hadolygu a'u diwygio
- rhoi'r gorau i gynnal CDUau.

## Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd gan bob plentyn, ei rieni/gofalwyr a phobl ifanc hyd at 25 yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY neu CDU.

Rhaid i awdurdodau lleol gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

## Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli'r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol neu'n iau, a'r rheini dros oedran ysgol gorfodol sydd mewn ysgol neu addysg bellach.

Fel rheol, ni fydd awdurdodau lleol yn paratoi a chynnal CDU ond mewn achosion lle y mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn fwy difrifol neu gymhleth. Yr ysgol a gynhelir neu'r sefydliad addysg bellach fydd yn gyfrifol am y CDUau fel arfer.

## Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.

Os bydd anghytundebau'n codi, dylai trefniadau'r awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl ac ar lefel mor lleol â phosibl.

## Mwy o gydweithredu

Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud cais am gymorth neu wybodaeth gan gorff arall wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ADY, dylai'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais.

OGL © Hawlfaint y Goron 2018 WG34035